**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol**

**Dyddiad y cyfarfod:** **3 Gorffennaf 2013**

**Aelod / Swyddog Arweiniol** **Barbara Smith**

**Awdur yr Adroddiad :** **Catrin Roberts**

**Teitl: Adroddiad Archwilio Mewnol AD Strategol:**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu a nodwyd fel rhan o'r Adroddiad Archwilio Mewnol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Yn y Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol ar 27 Chwefror 2013, cyflwynodd yr adran Archwilio Mewnol adroddiad ar AD Strategol oedd â graddfa sicrwydd isel mewn perthynas â darparu cynllun gweithredu archwilio.

Trafodwyd hyn yn helaeth yn y cyfarfod, a gofynnodd yr aelodau am gael adolygu'r cynnydd yn ofalus a chyflwyno adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i gyfarfod mis Gorffennaf i sicrhau bod y camau yn cael eu datblygu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Nodi cynnwys yr adroddiad.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Cyflwynwyd adroddiad i'r Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol ym mis Chwefror 2013 ynglŷn ag AD Strategol oherwydd y graddfa sicrwydd isel a roddwyd i ddarpariaeth tebygol Cynllun Gweithredu Archwilio'r gwasanaeth. Ers hynny, gwnaethpwyd cynnydd helaeth ar y cynllun gweithredu ac mae copi wedi'i atodi yn atodiad A.

Mae gwaith pellach angen ei wneud ac mae hyn wedi'i nodi isod.

### Data Gweithlu

Mae'r prosiect data gweithlu ar y gweill a bydd wedi'i gwblhau erbyn Hydref 2013. Yn ogystal â hyn mae ymarfer data yn cael ei gynnal sy'n cynnwys cydweddu data cyflogau a Trent, gyda rheolwyr yn dilysu'r data os yw'n bosibl. Pan fydd hyn wedi'i wneud, bydd data allweddol yn cael ei ddilysu gan y gweithwyr.

Mae trafodaethau hefyd ar y gweill i sicrhau cywirdeb parhaus y data yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys un pwynt mynediad ar gyfer gwybodaeth allweddol, gwiriadau rheolaidd ar linellau rhoi gwybod, a phroses ar gyfer cynnwys newidiadau gwasanaeth fel ailstrwythuro.

**Fframwaith Recriwtio**

Mae'r fframwaith recriwtio wedi'i gytuno a'i fabwysiadu gan y Cyngor. Mae'n mynd i'r afael â nifer o faterion a godwyd yn yr Adroddiad Archwilio. Y cam nesaf yw ei lansio yn y gwasanaethau gan ddefnyddio amryw o ddulliau a'u teilwra i anghenion y gwasanaethau unigol os yw'n bosibl. Mae gwaith wedi dechrau a rhagwelir y bydd yn cymryd 6 mis i gyd.

**Gweithredu canlyniadau'r adolygiad proses.**

Ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Archwilio, mae Cynllun Gwella AD (Crynodeb yn Atodiad B) ac mae gweithredu canlyniadau'r adolygiadau proses wedi'i gynnwys yn y cynllun hwnnw. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau ac mae'n barhaus.

**Fframwaith Cymhwysedd AD a'r Fframwaith Sicrwydd Ansawdd**

Mae'r ddau wedi'u datblygu ac yn barod i'w gweithredu.

Mae'r fframwaith sicrwydd ansawdd yn rhan o'r Broses Herio Gwasanaeth a bydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r graddfeydd amser a nodwyd ar gyfer y broses herio.

Cynhelir yr Adolygiad Cymhwysedd Proffesiynol AD yn flynyddol, ond 6 mis ar ôl y Gwerthusiad Perfformiad. Bydd hyn yn cadw ffocws y Gwerthusiadau Perfformiad ar gymhwysedd cyffredinol Cyngor Sir Ddinbych ac yn darparu adolygiad dros dro o berfformiad sy'n canolbwyntio ar gymhwysedd proffesiynol sydd wedi'i dargedu yn benodol ar gyfer eu swyddogaeth yn y cyngor. Bydd hyn yn dechrau ym mis Medi 2013.

**Datblygu rhestrau gwirio, sgriptiau safonol a llythyrau ar gyfer gwasanaeth trafodaethol**

Mae'r gwaith hwn wedi dechrau, ond mae rŵan yn cael ei gynnwys yn y cynllun Gwella AD ehangach sy'n cynnwys awtomatiaeth prosesau os yw'n bosibl. Bydd pob proses yn cael ei chynnal yn ei thro ac felly mae'n bosibl y bydd yn cymryd tan fis Rhagfyr i'w cwblhau. Ond, bydd tua 80% yn cael eu cwblhau o fewn y graddfeydd amser gwreiddiol sef Hydref 2013.

Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal wythnos adolygu yn dechrau 24 Mehefin 2013 a byddant yn gallu rhoi adroddiad ar lafar yn y cyfarfod os oes angen.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Amherthnasol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Does dim goblygiadau penodol ar wasanaeth arall.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb? Dylid cynnwys templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.**

Amherthnasol.

**8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Amherthnasol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Amherthnasol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae risg yn gysylltiedig â pheidio darparu cynllun gweithredu sydd wedi'i nodi fel rhan o'r adroddiad archwilio.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol